Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

## Comisiwn y Cynulliad
## Assembly Commission

**NAFWC 2014**
**Cofnodion cyfarfod 28 Ionawr 2010**

**Dyddiad: 28 Ionawr 2010**
**Amser: 16:00**
**Lleoliad: Ystafell Gynadledda 4B**

# Cofnodion cyfarfod 28 Ionawr 2010

**Presennol:**
**Llywydd, Cadeirydd**
**Lorraine Barrett AC (Llafur)**
**Peter Black AC (y Democratiaid Rhyddfrydol)**
**William Graham AC (y Ceidwadwyr)**
**Chris Franks AC (Plaid Cymru)**

**Swyddogion yn bresennol:**
**Ian Summers, Pennaeth yr Uned Gorfforaethol**
**Helen Finlayson, Ysgrifenyddiaeth**
**Non Gwilym, Pennaeth Cyfathrebu Allanol – eitemau 1-4**
**Dianne Bevan, Prif Swyddog Gweithredu – eitemau 1-6**
**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad – eitemau 1-6**
**Keith Bush, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol – eitemau 1-6**
**Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol – eitemau 1-6**
**Steven O'Donoghue, Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad – eitem 7**

**Cynghorwyr Annibynnol:**
**Mair Barnes**

**Arsylwi:**
**Dim**

**Eraill:**
**Dim**

1. Cyflwyniad

Datgan buddiannau
Datganodd William Graham ei fod yn Gadeirydd Ymddiriedolwyr y Pensiwn mewn perthynas ag eitem dau.

Cofnodion y cyfarfod – 25 Tachwedd 2009
Cytunwyd ar y cofnodion yn ffurfiol.

Materion yn deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2009
Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

2. Y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect Cymorth i Aelodau'r Cynulliad
Cyflwynodd Keith Bush bapur dau, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfnod dau'r cynllun gweithredu, y cynnydd gyda'r Mesur arfaethedig ynghylch Taliadau drwy waith craffu cyfnod un, ac yn amlinellu'r dulliau arfaethedig o weithredu'r argymhellion ar gofrestru cyflogaeth ychwanegol Aelodau a Chynllun Pensiwn yr Aelodau.

Cytunodd y Comisiwn y dylid gwahodd y Pwyllgor ar Safonau Ymddygiad i ystyried y ffordd orau o weithredu argymhelliad 15 adroddiad 'Yn Gywir i Gymru', a chymeradwywyd y newidiadau arfaethedig i'r Memorandwm Dealltwriaeth gydag Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn yr Aelodau.

3. Y wybodaeth ddiweddaraf am y Pierhead
Cyflwynodd Non Gwilym bapur tri, yn nodi bod y prosiect ar fin cael ei gwblhau ar amser ac o fewn y gyllideb. Cynhelir y lansiad swyddogol ar 1 Mawrth, a bydd yn canolbwyntio ar gymunedau lleol a'r rheini sydd â chysylltiadau â'r adeilad. Cynhelir Sesiynau'r Pierhead rhwng 4 a 6 Mawrth, a byddant yn dathlu agor yr adeilad fel llwyfan cyhoeddus ar gyfer siarad a thrafod yn rhydd. Amlinellodd Lorraine Barrett y cyfleusterau sydd ar gael a'r argraff dda a gafodd o'i hymweliad ac anogodd y Comisiynwyr a'r Aelodau hynny nad ydynt wedi ymweld â'r Pierhead i achub ar y cyfle i wneud hynny cyn yr agoriad swyddogol.

Nododd y Comisiwn y cynnydd gyda phrosiect y Pierhead, cytunodd ar y cynigion ar gyfer y digwyddiad lansio a Sesiynau'r Pierhead, a chytunodd mewn egwyddor ar y cynigion ar gyfer trefniadau gweithredu diwygiedig i ddigwyddiadau ac archebu o

ganol mis Mawrth.  Gofynnodd y Comisiwn am i ragor o ystyriaeth gael ei roi i oriau agor yr adeilad, yn enwedig y cynnig i beidio ag agor i'r cyhoedd ar y Sul.

Diolchodd y Comisiwn i Dîm Prosiect y Pierhead, ac yn arbennig i Gwen Thomas, am eu gwaith o ddiogelu ac ailwampio'r Pierhead, a rhoddwyd canmoliaeth i'r prosiect am wychder y cyfleuster sydd ar gael i'r Cynulliad ac i'r cyhoedd.

Camau i'w cymryd: Rhagor o ystyriaeth i'w roi i oriau agor y Pierhead ar gyfer digwyddiadau ac fel atyniad i ymwelwyr.

4. Hyrwyddo ymgysylltu yn 2010 a 2011

Cyflwynodd Dianne Bevan bapur pedwar, yn nodi'r cyfleoedd posibl i'r Cynulliad gyfrannu at godi ymwybyddiaeth a gwella cyfranogiad mewn trafodaethau cyhoeddus ar y refferendwm ac ar adeg etholiadau mawr, a'r cyfyngiadau ar y Cynulliad o ran gwneud hynny.

Bu'r Comisiwn yn ystyried y cyfleoedd a'r heriau a gyflwynwyd yn nhermau'r strategaeth gyfathrebu a'r amcanion a amlinellwyd yn y papur, a chytunodd ar y cynnig i gomisiynu rhagor o waith ymchwil.

5. Rheoli asedau

Cyflwynodd Dianne Bevan bapur pump, yn nodi mai diben y Strategaeth Rheoli Asedau yw sicrhau bod asedau'r Cynulliad yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac integredig, gan roi'r sylw priodol i gynaliadwyedd, er mwyn rhoi'r cymorth gorau i'r Cynulliad.

Bu'r Comisiwn yn trafod y Strategaeth Rheoli Asedau arfaethedig a chymeradwywyd y strategaeth.

6. Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn

Bu'r Comisiwn yn ystyried papur chwech, adroddiad y Bwrdd Rheoli, a bu'n trafod y materion canlynol:

Y Rhaglen ddeddfwriaethol

Nododd Adrian Crompton fod y rhagolygon ar gyfer y rhaglen ddeddfwriaethol dros y flwyddyn nesaf yn brysur iawn, yn nhermau deddfwriaeth y Llywodraeth a deddfwriaeth nad yw'n ymwneud â'r Llywodraeth.

Tywydd garw

Nododd y Comisiwn ei ddiolch i'r staff am eu hymrwymiad i sicrhau bod gwasanaethau'n mynd rhagddynt fel arfer yn ystod y tywydd garw diweddar. Dywedodd Dianne Bevan mai dim ond 54 o ddyddiau o absenoldeb arbennig a ganiatawyd, oherwydd cyfuniad o anawsterau teithio a gofalu.

Prosiect UNO

Dywedodd Dianne Bevan fod y trefniadau cytundebol ar gyfer y prosiect wedi'u cwblhau. Mae'r oedi o ran trafodaethau am y cytundeb wedi golygu bod y prosiect wedi tanwario ar gyfer 2009-10, ac y bydd angen proses i drosglwyddo'r gwariant i'r flwyddyn ganlynol, gan ddefnyddio cyllidebau ategol i leihau'r arian eleni a'i ychwanegu at gyllideb y flwyddyn nesaf. Bu'r Comisiwn yn trafod y trefniadau cyllidebol arfaethedig a lleoliad ail ganolfan ddata. Cytunodd Dianne Bevan i ddosbarthu'r ffigyrau yn ystod yr wythnos nesaf.

Cyfleusterau meithrin

Nododd Dianne Bevan fod papur wedi'i ddosbarthu y tu allan i'r Pwyllgor ynghylch darparu cyfleusterau meithrin. Mae swyddogion yn cydweithio â darparwyr y feithrinfa er mwyn rhoi'r gwaith adeiladu a datblygu angenrheidiol ar waith. Roedd y Comisiwn yn fodlon â'r cynigion a nodwyd yn y papur, i gefnogi'r darparwr a ddewiswyd i ymestyn y cyfleuster a sicrhau lleoedd at ddefnydd Aelodau'r Cynulliad, eu staff a staff y Cynulliad. Y costau i'w talu gan ddefnyddwyr y cyfleuster.

7. Taliadau Staff

Cyflwynodd Steven O'Donoghue bapur saith, ac amlinellodd gynigion y Grŵp Llywio ar Dâl a Chydnabyddiaeth a chyngor y Pwyllgor Tâl fel yr adlewyrchwyd yn y papur.

Bu'r Comisiwn yn trafod y prif gynigion mewn perthynas â Thâl a Chydnabyddiaeth ac o fwyafrif, derbyniwyd yr argymhellion a nodwyd yn y papur mewn egwyddor. Nodwyd dewis Peter Black o gynnal cysondeb rhwng y cynnydd yn nhâl Aelodau a staff y Cynulliad.

8. Materion i'w nodi

Nododd y Comisiwn y Cynllun Paratoi Cyfrifon a'r ohebiaeth â Chonfensiwn Cymru Gyfan a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

**Cytunodd y Comisiwn i gais Cadeirydd y Panel Annibynnol ar Wasanaethau Dwyieithog am ymestyn y dyddiad cau i'r Panel gyflwyno adroddiad, i doriad y Pasg.**